# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 12 Rhagfyr Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 13eg 0 Ragfyr 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), Henadur Arnallt D James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, Loreen Lewis, Annette Price, Peter Cowell, Betsan Jones, Carwyn James, Delyth Richards, June Gunter a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNOD!ON Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 8fed 0 DACHWEDD 2006.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Annette Price fod cofnodion cyfarfod yr 8fed 0 Dachwedd 2006 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN COD I.
2.1 Cadwyn Y Cadeirydd.
Rhoddwyd y Clerc Cadwyn y Cadeirydd i Gynghorwr Menna Roberts. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.2 Groesau i'r Eg!wys ar Gapel ym Metws.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr fod T R Jones wedi rhoi 2 groes; un i'r Eglwys ar llall i'r Capel ym Metws. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Annette Price fod llythyr yn cael ei ddanfon i T R Jones i roi diolch iddo am roi'r ddau groes. Cytunwyd y Cynghorwyr. Dywedodd y Cynghorwr Annette Price wrth y Cynghorwyr fod y Ficer wedi gwrthod dodi'r groes i fyny ar yr Eglwys oherwydd lechyd a Diogelwch.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon llythyr 0 ddiolch i T R Jones.

Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell wrth y Cynghorwyr fod y Golau L1if roedd y Cyngor Cymuned wedi prynu peth amser yn nol wedi torri. Esboniodd fod Mr Betton wedi trwsio'r Golau Llif y Cyngor Cymuned. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell fod llythyr 0 ddiolch yn cael ei ddanfon at Mr Betton, eiliodd y Cynghorwr Carwyn James hyn ac fe gytunwyd y Cynghorwyr. PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon llythyr 0 ddiolch i Mr Betton.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Llvthyr wrth Gynghorwr Peter Cowell am ei Ymddiswyddiad.
Darllenodd y Clerc gohebiaeth a dderbyniwyd wrth Gynghorwr Peter Cowell ynglyn ai ymddiswyddiad ar y 30ain 0 fis Ebrill 2007. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur a chytunwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn a phryd mae'r Cyngor Cymuned yn gallu hysbysebu swydd wag gynghorydd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn a phryd mae'r Cyngor Cymuned yn gallu hysbysebu'r swydd wag gynghorydd.

3.2 Llwybr Troed Cofrestr 3/1 a 3/9.
Darllenodd y Clerc gohebiaeth a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn a'r llwybr troed cofrestr 3/1 ac 3/9 ger Maes Y Berllan, Betws. Esboniodd y Cynghorwr Peter Cowell yr amgylchiadau i'r Cynghorwyr a hefyd cadarnhaodd fod y Ceidwad 0 Gyngor Sir Caerfyrddin wedi awgrymu rhoi pont sliper ar lwybr troed 3/9 yn fis lonawr 2007. Gofynnodd y Cynghorwr

Peter Cowell os yw'r Clerc yn gallu danfon copi o'r Ilythyr hyn at Miss Fouler.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn danfon copi o'r llythyr a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin at Miss Fouler.

3.3 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
1.Taflen Newyddion HOWLTA - rhoddwyd i Gynghorwr Carwyn James.
2.Taflen Newyddion Child line Cymru - rhoddwyd i Gynghorwr Annette Price.
3.Un L1ais I Gymru - Pwyllgor Ardal Gaerfyrddin - rhoddwyd i Gynghorwr Anne Sizmur.
4.Cyngor Sir Caerfyrddin
•Adolygiad 0 gyfleustra Adloniant - rhoddwyd i Gynghorwr Peter Cowell i ddanfon ymlaen at Gynghorwr Keith Rees.
•Cau'r Heol dros dro C2134 Heol Pantyffynnon Ty-Croes, Betws.
•Cynllun Gwella 2006/2007 & Strategaeth Gorfforaethol 2007/2012 ¬rhoddwyd i Gynghorwr Menna Roberts.
5.Partneriaeth Sir Gaerfyrddin Cyfarfodydd Rhwydweithiau Cymunedol ¬rhoddwyd i Gynghorwr Annette Price.
6.Adroddiad Blynyddol y Bwrdd lechyd Lleol 2005/06 - rhoddwyd i Gynghorwr June Gunter.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned Y Betws wedi rhoi caniaUid i'r ceisiadau canlynol:-
E/14770 - Adeiladu adeilad cyflogaeth ar Waith Glo Betws (23).
E/14774 - Estyniad i fatri Prostone Cyf, Gweithdy Pare Betws, Stryd y Pare, Betws (21).
E/14773 - Estyniad dau lawr j'r ochr 02 Heol Waungron, Betws (22).
E/14906 - Cais i gywiro lied yr heal ger y plot gyferbyn a Maesifan, Heol Waunddwfn, Betws (25).

4.2 Mae Cyngor Cymuned Y Betws wedi gwrthwynebi'r cais canlynol:¬
E/14858 - Ailgyrchi Deiars ger Bryncelyn, Heol Maescware, Betws (24).

5. CYFRIFON.
Esboniodd y Cynghorwr Carwyn James j'r Cynghorwyr fod 9 cais am rodd wedi cael ei dderbyn ers Cyfarfod diwethaf yr Is Bwyllgor Ariannol ym mis Gorffennaf. Trafodwyd gan y Cynghorwyr. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell fod £100 yn cael ei rhoi i Ammanford AFC ac nid £50 fel awgrymodd gan yr Is Bwyllgor Ariannol, fe eiliodd y Cynghorwr Betsan Jones hyn ac fe gytunwyd y Cynghorwyr, fod Ammanford AFC yn derbyn rhodd 0 £100.

1.Thomas Fattorini (Cadwyn y Cadeirydd) £1085.41
2.Cyflog a Lwfans y Clerc £837.71
3.Treth Incwm y Clerc £177.78
4.Gwasg Dinefwr (taflenni) £32.90
5.Mr Betton (Trwsio'r Golau L1if) £40.00
6.SLCC (Cyfraniad) £75.00
7.Rhodd - Cyfrifoldeb Christian Lewis £50.00
8.Rhodd - Y Groes Goch £100.00
9.Rhodd - Canser Marie Curie £50.00
10.Rhodd - Shelter Cymru £100.00
11 .Rhodd - Bobath £50.00
12.Rhodd - Eisteddfod Genedlaethol Cymru £50.00
13.Rhodd - Rhyddhad Canser Macmillan £50.00
14.Rhodd - Ammanford AFC £100.00
15.Rhodd - Dechrau Cartref Dinefwr £100.00
Cynghorwr Menna Roberts (taflenni) £4.10

Esboniodd y Clerc i'r Cynghorwyr yn dilyn Cyfarfod yr Is Bwyllgor Ariannol roedden nhw'n pryderu am stad y safle picnic ar ben Mynydd y Betws. Mae eisiau ffens newydd 0 gwmpas y safle picnic, mae eisiau biniau sbwriel a hefyd mae eisiau byrddiai picnic newydd.

Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ddweud wrthynt am yr uchod a hefyd i wneud ymholiadau ynglyn a'r gost 0 wneud yr uchod oherwydd efallai fydd y Cyngor Cymuned yn gallu cyfrannu at hyn. Cytunwyd y Cynghorwyr .
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Hamdden 0 Gyngor Sir Caerfyrddin.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 5 trosedd wedi'u cofnodi yn ardal y Betws ym mis Tachwedd. Maent fel a ganlyn:-
2 ymosodiad, 1 Iladrad ty, 1 IIadrad ac 1 trosedd amrywiol. Nid yw hyn wedi'u datrys.

Adroddodd PC Kevin Jones fod y Cynghorwr Sir John D Evans wedi ysgrifennu at Arolygwr Tony Ward ynglyn a cherbydau yn cyflymu ar hyd Heol Pentwyn, Betws. Pryd fydd cyfarpar monitor traffic ar gael, gobeithio bydd hyn yn y 4-6 wythnos nesaf fydd yr Heddlu yn monitor traffic yn yr ardal hon.

Hefyd adroddodd PC Kevin Jones fod yr Heddlu yn gobeithio prynu gwn laser i'r Swyddogion Heddlu Cyfagos. Mae yna chwech Cynghorau Cymunedol yn yr ardal a gofynnodd PC Jones os yw bob Cyngor Cymuned yn fodlon rhoi rhodd 0 £200 yr un i brynu gwn laser. Gofynnodd y Cynghorwr Menna Roberts os yw'r Heddlu yn gallu rhoi hwn yn ysgrifenedig a fydd yn gallu cael ei drafod yn Cyfarfod y Cyngor Cymuned sydd yn fis lonawr 2007.

Dywedodd PC Jones wrth y Cynghorwyr fod dau Ddisco Glas wedi cael ei gynnal ym mis Tachwedd a bu 300 0 bobl ifanc yn bresennol yn pob disco. Awgrymodd y Cynghorwr June Gunter ac fe gytunwyd y Cynghorwyr i ddanfon Ilythyr 0 ddiolch i'r Heddlu am y gwaith meant yn gwneud ynglyn ar Ddisgos Glas. PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon Ilythyr 0 ddiolch at yr Heddlu.

Adroddodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod dau ddamwain wedi cymryd lie ar Deras Wern, Betws. Gofynnodd Cynghorwr Loreen Lewis os yw'r marciau ar yr hewl yn gallu cael ei wneud yn fwy c1ir. Cadarnhaodd PC Jones ei fod yn mynd i siarad gydag Adran y Briffordd ar y mater hwn.

Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi gofyn yn y Cyfarfod diwethaf i PC Shane Davies os yw'r Heddlu yn gallu gwneud unrhyw beth ynglyn ar gar sydd wedi cael ei pharcio ar y palmant ar hyd Heol Y Felin, Betws. Dywedodd fod y Cyngor Cymuned wedi gwneud pob peth a gallwn. Dywedodd PC Jones fedd yn edrych mewn j'r mater hyn.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans y canlynol:-
1.Ysgol y Betws - Adroddodd fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynd i ail hystyried y cyfyngiad ar gyflymdra 20mya tu allan i Ysgol Y Betws.
2.L1if ym Metws - Mae ef wedi cael cyfarfod gyda swyddog o'r Adran Gwasanaethau Technegol 0 Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn a'r 2 Ileoliad IIif ym Metws. Fyddan nhw'n fonitor sefyllfa.
3.Mynediad i Waith Glo Betws - Dywedodd fod eisiau gwella'r mynediad 0 Waith Glo Betws i'r brif heol.

Rhoddwyd y Gadeiryddes ddiolch i Gynghorwr Sir John D Evans am ei adroddiad.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Rhaglen Cerdded Etifeddiaeth.
Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell fod bwrdd hysbysiad Rhaglen Cerdded Etifeddiaeth yn cael ei rhoi i fyny tu allan i Barc Betws. Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os yw'r bwrdd hysbysiad yn gallu cael ei rhoi i fyny ar 61 i'r Cynllun Parc Betws wedi ei chwblhau.

Gofynnodd y Cynghorwr Delyth Richards os yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn copi o'r cyfieithiad Cymraeg am y Rhaglen Cerdded Etifeddiaeth. Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell fod hyn yn y broses o gael ei chyfieithu. Awgrymodd y Cynghorwr Delyth Richards fod y Clerc yn gofyn am gopi o'r cyfieithiad Cymraeg. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am gopi o'r cyfieithiad Cymraeg am y Rhaglen Cerdded Etifeddiaeth.

Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price ac eiliodd y Cynghorwr June Gunter nid yw'r bwrdd hysbysiad yn cael ei rhoi i fyny tan fod Cynllun Pare Betws wedi eu cwblha':J. Cytunwyd y Cynghorwyr.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

8.2 Meddygfa'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd wedi bod yn bresennol ym Meddygfa'r Cyngor Cymuned cyn Cyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Rhagfyr. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9. UNRHYW F ATER ARALL.
9.1 Colfen Nadolig i Barc Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi gwneud ymholiadau ynglyn ar gost 0 osod colfen Nadolig ym Mharc Betws. Fydd yn costio tua £2,280 ac nid yw hyn yn cynnwys y bil wrth y Bwrdd Trydan na'r yswiriant Cyfrifoldeb y Cyhoedd. Roedd y Cynghorwyr yn teimlo fod hyn yn ddrud dros ben. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9.2 Goleuadau Llif.
Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell fod y Cyngor Cymuned wedi prynu Goleuadau L1if i'r Eglwys a bod y Cyngor Cymuned yn rhoi rhodd ariannol pob blwyddyn j'r Eglwys am sefydliad ac am ofalaeth y goleuadau. Dywedodd y Cynghorwr June Gunter dele hyn hefyd gael ei gwneud i'r Cape!. PENDERFYNWYD: y Cynghorwyr fod hyn yn cael eu rhoi ar Agenda mis nesaf.

9.3 Dosbarthu Taflennau.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr yn cyfarfod diwethaf y Cyngor Cymuned roedd y Cynghorwr Keith Rees wedi awgrymu dosbarthu taflennau i drigolion Betws i hysbysu'r digwyddiadau sy'n cymryd lie ym Metws e.e. Betws yn ei Blodau.
PENDERFYNWYD: y Cynghorwyr fod hyn yn cael eu rhoi ar Agenda mis nesaf.

9.4 Taflen Newyddion y Cyngor Cymuned.
Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell gynhyrchu Taflen Newyddion y Cyngor Cymuned.
PENDERFYNWYD: y Cynghorwyr fod hyn yn cael eu rhoi ar Agenda mis nesaf